Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Penrhyn-coch

**Penrhyncoch**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Penrhyn-coch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penrhyn-coch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 78 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 8.6 % |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 19.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 42.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2016 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/05/2017 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Penrhyn-coch yn ysgol bentref a chroesawgar sydd â chysylltiadau agos â'r gymuned leol. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn cyfrannu'n gyson at greu ethos gofalgar a chynhwysol. Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn. Mae disgyblion yn dechrau gwneud penderfyniadau am yr hyn maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd yn aelodau o bwyllgorau fel y cyngor ysgol, yn dylanwadu'n gyson ar waith yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus mewn gwersi, er bod lleiafrif y disgyblion hynaf yn troi i'r Saesneg yn achlysurol wrth drafod gyda'u cyfoedion. Mae llawer yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn. Maent yn datblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r disgyblion hynaf yn orddibynnol ar ganllawiau ysgrifennu sy'n llesteirio eu gallu i ysgrifennu gyda rhyddid ac annibyniaeth gynyddol. Yn ogystal, nid ydynt yn gwella cynnwys eu gwaith yn dilyn adborth yn ddigon cyson.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn addas. At ei gilydd, maent yn datblygu medrau digidol yn briodol, er nad yw'r disgyblion hynaf yn cymhwyso'r  ystod lawn o fedrau digidol hyd eithaf eu gallu. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gwersi difyr sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn herio ychydig o ddisgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro, yn enwedig disgyblion ar frig yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gystadlu yn y gymuned leol, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn twrnameintiau chwaraeon, sioeau lleol ac eisteddfodau.

Mae Ysgol Penllwyn wedi ei ffedereiddio gydag Ysgol Penrhyn-coch. Mae'r pennaeth, sydd yn gweithio ar draws y ddau safle, yn ymgorffori'r arwyddair 'gyda'n gilydd, gallwn lwyddo'. Er bod gan yr ysgolion eu cymunedau unigryw, maent hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn rhan o un ffederasiwn, ac yn cynnal gweithgareddau gyda'i gilydd ar gyfer disgyblion a rhieni yn rheolaidd.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A3 Datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, gan gynnwys eu gallu i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, gwella gwaith eu hunain, a dylanwadu ar waith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn trafod cynhwysion eu cacennau yn frwdfrydig ac mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd wrth greu toes. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir, gan amlaf. Caiff medrau siarad llawer o ddisgyblion eu datblygu'n fwriadus mewn gweithgareddau diddorol, er enghraifft wrth gyflwyno negeseuon moesol fel rhan o wasanaeth diolchgarwch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg, er hynny, mae'r lleiafrif yn troi i'r Saesneg wrth sgwrsio'n ddigymell gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus wrth symud drwy'r ysgol. Maent yn dangos brwdfrydedd at ddarllen ac yn gwerthfawrogi'r ystod ddiddorol o testunau darllen sydd ar gael iddynt. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am synau llythrennau yn gywir, a'r rhai hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais gan ddefnyddio marciau atalnodi yn gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau darllen uwch yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i ffeithiau am wlad Pwyl.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn datblygu eu medrau i ysgrifennu brawddegau syml. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau i ysgrifennu brawddegau ymestynnol erbyn diwedd Blwyddyn 2. Mae gan y disgyblion hynaf ddealltwriaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu ac maent yn addasu eu hysgrifen yn synhwyrol wrth ystyried y gynulleidfa. Gwna'r disgyblion mwyaf abl ddefnydd effeithiol o eirfa bwrpasol, brawddegau bachog ac ansoddeiriau effeithiol yn y ddwy iaith er mwyn cyfoethogi eu hysgrifennu. Ar adegau, mae disgyblion yn orddibynnol ar ganllawiau ysgrifennu a thaflenni gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd bwriadus iddynt ysgrifennu'n gynyddol rhydd ac annibynnol. O ganlyniad, nid yw ychydig o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig hyd eithaf eu gallu, bob tro.

Mae medrau mathemategol llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn ac mae ganddynt afael dda ar ffeithiau rhif a mesur, ac maent yn trin data yn gywir. Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i ffurfio rhifau yn gywir ac yn adnabod bondiau rhif i 4. Erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae'r disgyblion yn defnyddio

offer mathemategol yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion tra'n coginio, gan ddefnyddio unedau safonol fel gram a chilogram i gyfrifo cyfansymiau. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn fuddiol, er enghraifft wrth greu graff llinell yn dilyn ymchwiliad i guriad y galon. Yn ogystal, pan mae'r ddarpariaeth yn caniatáu iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu, mae llawer yn gwneud cynnydd cyson.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn creu cyflwyniadau'n  fedrus, er enghraifft wrth gynnwys animeiddio a throslais i'w stori dosbarth. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau cyflwyno yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn creu hysbysebion digidol i rannu'n ddiogel ar y cyfryngau cymdeithasol cyn mynd ati i gymryd archebion am y cynnyrch fel rhan o'u paratoadau ar gyfer cynnal ffair aeaf rithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio offer cyfrifiadurol yn llwyddiannus wrth gofnodi a gwerthuso eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gadw'n ddiogel ar y we. Er hyn, nid yw'r disgyblion hynaf yn datblygu'r  ystod lawn o fedrau digidol.

Mae medrau creadigol y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i drafod nodweddion y siapiau maent wedi eu creu o glai, ac yn awyddus i ychwanegu manylder addas i'w cynnyrch. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn werthfawr, er enghraifft wrth gyfansoddi sgôr a pherfformio'r gerddoriaeth wrth ddefnyddio graddfa bentatonig syml.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Rhai o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r natur gynhwysol, ethos gofalgar a'r awyrgylch gartrefol sydd ynddi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol, yn falch o'u hysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan oedolion. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthynas gadarnhaol ag oedolion. Mae disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus, mewn parau ac mewn grwpiau, ac yn cynnig cymorth i'w gilydd, pan fo angen. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r disgyblion hynaf yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, sydd yn ei dro yn amharu ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan eu cyfoedion ac oedolion, yn gyffredinol. Mae llawer yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, ar brydiau, mae ychydig o ddisgyblion yn rhy barod i ofyn am gymorth oedolion yn hytrach na dyfalbarhau wrth wynebu anawsterau. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon cadarn.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parodrwydd i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth fel dewiniaid digidol, a bod yn aelodau o'r grŵp Cymry i'r carn a llysgenhadon yr ysgol. Yn sgil y cyfrifoldebau hyn, maent yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Maent yn dechrau dylanwadu ar waith yr ysgol, er enghraifft wrth wneud cais llwyddiannus i'r awdurdod lleol am arian i fuddsoddi mewn gemau bwrdd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar drefniadau'r ysgol.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o gadw'n iach trwy fwyta ac yfed yn synhwyrol. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r sesiynau rheolaidd i gadw'n heini. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cymryd rhan mewn sesiynau cylch amlsynhwyraidd defnyddiol tra bod y disgyblion hynaf yn mwynhau sesiynau ffitrwydd buddiol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae arweinwyr a staff ysgolion y ffederasiwn yn cydweithio'n strategol i ddylunio a chyflwyno cwricwlwm sy'n meithrin a gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r pwyslais ar ddathlu digwyddiadau Cymreig pwysig, er enghraifft wrth ddathlu diwrnod Owain Glyndŵr a chymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae athrawon a staff ar draws y ffederasiwn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg. Er enghraifft, fel rhan o'r prosiect 'Ein Cynefin', mae disgyblion yn creu podlediadau sy'n cynnwys hanes bardd lleol. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn troi i siarad Saesneg, er enghraifft wrth sgwrsio â'u cyfoedion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, yn enwedig ar frig yr ysgol. Mae athrawon yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r disgyblion hynaf yn dwysàu eu dealltwriaeth o ieithoedd rhyngwladol wrth ddechrau dysgu Ffrangeg a Pwyleg. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos chwilfrydedd tuag at ddatblygu medrau ieithyddol ac yn datblygu goddefgarwch at ddiwylliannau eraill.

Mae gan staff berthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion sy'n eu cymell i ddysgu mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn trin bob un yn gyfartal a chyda parch. Ar draws yr ysgol, mae cymorthyddion yn cefnogi athrawon yn effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau bod gwersi'n ddiddorol ac ysgogol. Yn yr achosion hyn, mae'r athrawon yn rhannu amcanion yn glir ac yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau pwrpasol i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o'r disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn canolbwyntio ar dasgau, ac yn cydweithio'n gyson â'u cyfoedion er mwyn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu medrau dysgu annibynnol yn ddigon cyson. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn orddibynnol ar ganllawiau ysgrifennu sy'n cyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n gynyddol rhydd ac estynedig.

Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn barhaus o fewn y gwersi ac yn cynnig adborth llafar er mwyn eu cynorthwyo i wella safon eu gwaith. Mae arweinwyr ac athrawon yn cynnal trafodaethau ar y cyd yn gyson i drafod cynnydd medrau disgyblion. Yn yr arfer orau, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol ac yn addasu'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n darparu digon o arweiniad i ddisgyblion i wybod beth i'w wneud i wella eu gwaith a sut, yn enwedig eu gwaith ysgrifennu estynedig.

Mae staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion gystadlu mewn amrediad eang o gystadlaethau chwaraeon, yn ogystal â chyfleoedd buddiol iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol. Er enghraifft mae’r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i ymuno â’r Taith Tractorau leol, ac mae’r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd i fynd i wersylla. Mae staff yn darparu ystod werthfawr o glybiau allgyrsiol, er enghraifft clwb hoci a chlwb coginio. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu agweddau positif at gadw’n iach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r staff yn trin disgyblion gyda pharch ac mae’r ethos gofalgar yn treiddio drwy’r ysgol. Mae lles disgyblion wedi bod yn flaenoriaeth amlwg yn ystod y pandemig, ac yn parhau i fod yn agwedd flaenllaw o waith y ffederasiwn.

Mae’r ysgol yn darparu cymorth dysgu effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae staff yn defnyddio amrywiaeth dda o dechnegau gwahanol i gefnogi’r disgyblion. Cânt eu cefnogi'n fedrus gan dîm o gymorthyddion sy’n darparu sesiynau buddiol i’r disgyblion ddatblygu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus. Mae staff yn gofalu am anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu gweithgareddau penodol a sesiynau cefnogi, lle bo’n briodol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau buddiol am y mislif ar gyfer grŵp o ddisgyblion ar draws y ffederasiwn.

Mae athrawon yn llunio proffiliau un tudalen defnyddiol ar gyfer disgyblion ADY yn effeithiol, sy’n cynnwys diddordebau disgyblion a disgrifiad o’r hyn sydd yn rhoi cymorth iddynt llwyddo. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion sydd ag ADY yn ofalus drwy graffu ar gynnydd mewn rhaglenni cymorth, craffu ar waith a thrwy gynnal trafodaethau proffesiynol rheolaidd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r cynnydd mae dysgwyr sydd ag ADY yn ei gyflawni.

Mae staff yn addasu’r ddarpariaeth yn gyson wrth ddiwallu anghenion disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, ar ôl dadansoddi holiadur lles disgyblion, cynlluniwyd prosiectau i annog disgyblion i ddathlu amrywiaeth a pharchu ei gilydd. Fodd bynnag, ar y cyfan, cyfyng yw dylanwad disgyblion ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae’r grwpiau cynrychiolaeth fel y cyngor ysgol yn dechrau dylanwadu ar drefniadau’r ysgol, er enghraifft wrth i gynrychiolwyr ‘Cymry i’r carn’ ddewis cerddoriaeth Gymraeg i’w chwarae o amgylch yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ar gyfer addoli ar y cyd, sy’n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio’n  dawel a moli trwy gân. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn cynnal gwasanaethau ar y cyd rhwng disgyblion y ddwy ysgol yn y ffederasiwn, sy’n cefnogi eu datblygiad moesol yn gyson. Mae staff yn hybu gwerthoedd fel parch ac empathi yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno pwmpenni gwahanol er mwyn sbarduno trafodaeth am ddathlu amrywiaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o hawliau plant yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr awdurdod lleol i fonitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o’r disgyblion hynaf yn parhau i gyrraedd yr ysgol yn hwyr sydd, yn ei

dro, yn tarfu ar eu dysgu. Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o'r broses ar gyfer adrodd ar faterion diogelu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei seilio ar bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Caiff ei chefnogi gan dîm o arweinwyr canol a llywodraethwyr cydwybodol. Gyda'i gilydd, maent yn gosod cyfeiriad strategol pendant ar gyfer ysgolion y ffederasiwn. Maent yn llwyddo i greu a chynnal ethos cryf o gydweithio.  O ganlyniad, mae holl staff y ffederasiwn yn ystyried eu hunain yn aelodau o un tîm.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu fel cyfaill beirniadol sy'n cefnogi a herio'r staff yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol, er enghraifft drwy sicrhau mai ffrwythau yn unig mae'r disgyblion yn eu bwyta yn ystod amser byrbryd.  Maent yn gwneud penderfyniadau am wariant yn briodol, er enghraifft wrth flaenoriaethu gwariant ychwanegol ar adnewyddu toiledau'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyllideb i gefnogi blaenoriaethau strategol yr ysgol yn addas, er enghraifft er mwyn gwella medrau Cymraeg disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y pandemig. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn darparu rhaglenni cymorth i gefnogi disgyblion penodol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn magu a datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda phartneriaid amrywiol. Mae ganddynt brosesau trosglwyddo cadarn gyda'r cylch meithrin sydd wedi ei leoli ar safle yr ysgol. Mae staff yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni. Er enghraifft, gwnant ddefnydd effeithiol o system ddigidol ddiogel ar-lein i rannu ffotograffau, fideos a darnau o waith.. Maent yn darparu gwybodaeth i rieni am yr hyn y gallent ei wneud er mwyn cefnogi dysgu eu plant, er enghraifft drwy gynnig syniadau ar sut i gyfoethogi sesiynau darllen gartref. Yn ystod y nosweithiau agored a ddarperir ar gyfer rhieni, mae staff yn rhannu rhestr o awgrymiadau defnyddiol er mwyn eu hannog i siarad â'u plant am agweddau gwahanol o'u gwaith.

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau cynhyrchiol yn y gymuned leol. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n rheolaidd gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth er mwyn cyfoethogi profiadau creadigol disgyblion. Mae arweinwyr yn cynnal perthynas agos â busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu medrau bywyd, er enghraifft wrth iddynt helpu mewn siop a chyfarch cwsmeriaid. Trwy hyn, maent yn datblygu medrau cyfathrebu cymdeithasol yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant diogelu'r ysgol yn amlwg trwy'r ysgol, er enghraifft drwy sicrhau bod yr holl staff yn gwybod sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, daeth mater iechyd a diogelwch yn ymwneud â'r safle i sylw'r tîm arolygu. Bydd Estyn yn ysgrifennu at gadeirydd y llywodraethwyr i ofyn am ddatrysiad i'r mater hwn.

Mae prosesau hunanwerthuso'r ysgol wedi eu sefydlu'n gadarn dros amser, ond oherwydd COVID-19, bu'n rhaid oedi rhai o'r gweithgareddau am gyfnod. Yn

ddiweddar, ar ôl cyfnod ansefydlog o ran staffio a’r pandemig, mae arweinwyr wedi cwblhau gweithgaredd hunanwerthuso ffederasiwn cyfan o dan yr ymbarél ‘myfyrio, ailgydio a thanio’, sy’n cynnwys gweithgareddau craffu ar lyfrau. Maent yn adnabod llawer o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir. Fodd bynnag, nid yw’r holl ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd wedi ailgychwyn hyd hyn.

Mae arweinwyr yn trefnu ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Er enghraifft, o ganlyniad i ystod o hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae athrawon yn trefnu bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio technoleg yn fwy hylaw. Yn ddiweddar, wrth gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr wedi mireinio arlwy'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn fuddiol drwy gyflwyno sesiynau Ffrangeg. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i ddatblygu eu harferion, ac yn herio tanberfformiad yn effeithiol, lle bo’n addas.

Gan fod yr ysgol wedi ei ffedereiddio ag Ysgol Penllwyn, mae’r pennaeth yn treulio canran o’i hamser ar y ddau safle, gydag ychydig o aelodau staff eraill hefyd yn dysgu neu’n cefnogi yn y ddwy ysgol. Yn ogystal, mae’r holl athrawon yn cydweithio’n agos i gynllunio profiadau dysgu ar gyfer disgyblion ar draws y ffederasiwn ac yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol fel un tîm yn rheolaidd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr aroly

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/11/2022